OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3364

# Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005

## RHAN 5

Apeliadau Treth Cyngor

### Adolygu penderfyniadau

**39.**—(1) Yn ddarostynedig i baragraffau (2) a (3) bydd gan Dribiwnlys a gyfansoddwyd fel y darperir ym mharagraff (4) hawl, ar dderbyn cais ysgrifenedig gan barti, i adolygu neu roi o'r neilltu drwy dystysgrif dan law'r aelod sy'n llywyddu—

(a) unrhyw benderfyniad ar unrhyw un o'r seiliau a grybwyllwyd ym mharagraff (5), a

(b) penderfyniad ar apêl yn erbyn hysbysiad cwblhau ar y sail ychwanegol a grybwyllir ym mharagraff (6).

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan benderfynwyd apêl yn erbyn y penderfyniad dan sylw gan yr Uchel Lys.

(3) Caiff cais o dan baragraff (1) ei wrthod oni wneir ef o fewn y cyfnod o bedair wythnos gan ddechrau ar y diwrnod pryd y rhoddir hysbysiad (boed yn unol â rheoliad 37(3) neu reoliad 40(3)) o'r penderfyniad dan sylw.

(4) Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bydd y Tribiwnlys a benodir i adolygu'r penderfyniad yn cynnwys yr un aelodau ag a oedd ar y Tribiwnlys a wnaeth y penderfyniad.

(5) Y seiliau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) yw—

(a) y gwnaed y penderfyniad yn anghywir o ganlyniad i gamgymeriad clerigol;

(b) na fu i barti ymddangos, ac y gall ddangos rheswm rhesymol pam na wnaeth y parti hynny; ac

(c) yr effeithir ar y penderfyniad gan benderfyniad gan neu ar apêl o'r Uchel Lys neu'r Tribiwnlys Tir mewn perthynas ag apêl ynglŷn ag annedd, neu yn ôl y digwydd, berson a oedd yn destun penderfyniad y Tribiwnlys.

(6) Y seiliau a grybwyllir ym mharagraff (1)(b) yw bod tystiolaeth newydd, na ellid bod wedi sicrhau ei bodolaeth drwy ymchwil rhesymol drylwyr, na'i rhagweld, wedi dod ar gael ers terfyn yr achos y mae'r penderfyniad yn ymwneud ag ef.

(7) Os bydd Tribiwnlys yn gosod penderfyniad o'r neilltu yn unol â'r rheoliad hwn, rhaid iddo ddirymu unrhyw orchymyn a wnaed o ganlyniad i'r penderfyniad hwnnw a rhaid iddo orchymyn ail wrandawiad neu ailbenderfyniad gerbron un ai'r un Tribiwnlys neu un gwahanol.

(8) Rhaid i'r Clerc, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol hysbysu'r partïon i'r apêl yn ysgrifenedig am—

(a) benderfyniad na fydd y Tribiwnlys yn ymgymryd ag adolygiad dan baragraff (1);

(b) penderfyniad y Tribiwnlys, wedi iddo gynnal adolygiad dan baragraff (1), na fydd yn rhoi o'r neilltu'r penderfyniad dan sylw;

(c) dyroddi unrhyw dystysgrif o dan baragraff (1); a

(ch) dirymu unrhyw orchymyn o dan baragraff (7).

(9) Yng nghyswllt penderfyniad y gwneir cais mewn perthynas ag ef o dan baragraff (1), lle bo apêl i'r Uchel Lys yn parhau heb ei phenderfynu ar y diwrnod perthnasol, rhaid i'r Clerc hysbysu'r Uchel Lys cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol yn dilyn y digwyddiad perthnasol.

(10) Ym mharagraff (9)—

ystyr "diwrnod perthnasol" ("*the relevant day*") yw'r diwrnod pryd, yn ôl y digwydd,—

(a) y gwneir y cais o dan baragraff (1);

(b) y digwydd y digwyddiad y cyfeirir ato yn unrhyw un o'r is-baragraffau (a) i (ch) o baragraff (8); ac

ystyr "y digwyddiad perthnasol" ("*the relevant event*") mewn perthynas â diwrnod perthnasol, yw'r digwyddiad sy'n digwydd ar y diwrnod hwnnw.

(11) Yn y rheoliad hwn, ystyr "aelod" ("*member*") yw aelod o Dribiwnlys a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 34.